# Datganiad o Fwriad ar y Cyd ar gyfer ECO4

Datganiad o Fwriad Cymhwysedd Hyblyg ECO4 Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd Rhwng:

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL PEN-Y-BONT AR OGWR**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI**

**CYNGOR CAERDYDD**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL MERTHYR TUDFUL**

**CYNGOR SIR FYNWY**

**CYNGOR DINAS CASNEWYDD**

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF**

**CYNGOR BWRDEISTREF TORFAEN**

**CYNGOR BRO MORGANNWG**

**Dyddiad Cyhoeddi:** 2024

**Rhif y Fersiwn: 1.0**

**Cyhoeddiad ar y wefan:** 2024

**Cyflwyniad a Chefndir**

Cytunodd Cabinet Rhanbarthol Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD) i ddilyn dull rhanbarthol o weithredu'r cynllun Rhwymedigaeth Cwmni Ynni 4 (ECO4) ym mis Tachwedd 2021 gan nad oedd y cynllun wedi'i ddefnyddio'n effeithiol ar draws y 10 Awdurdod Lleol yn ystod fersiynau blaenorol o ECO.

Mae'r datganiad hwn yn amlinellu'r meini prawf cymhwysedd hyblyg ar gyfer y cynllun ECO4 o Ebrill 2022 - Mawrth 2026 ar ran y 10 Awdurdod Lleol sy'n ffurfio Ardal Economaidd Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCR) yn Ne-ddwyrain Cymru: Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-Y-Bont ar Ogwr, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Cyngor Caerdydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Torfaen, a Chyngor Bro Morgannwg.

Mae ECO4 yn ofyniad gan Lywodraeth y DU i gwmnïau ynni gefnogi aelwydydd mewn tlodi tanwydd, a lleihau allyriadau carbon o fewn y stoc dai, drwy osod mesurau effeithlonrwydd ynni. Mae'r dull hyblyg a weithredir gan Awdurdodau Lleol i nodi

aelwydydd sy'n fregus ac mewn tlodi tanwydd a allai elwa o fesurau arbed gwres ac ynni yn cael ei gyfeirio ato fel "ECO4 Flex".

Mae Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'i haelod awdurdodau'n croesawu cyflwyno'r llwybrau cymhwysedd ECO4 Flex gan ei fod yn cael ei ystyried yn elfen allweddol o wella effeithlonrwydd gwres ac ynni cartrefi'r rhai sydd mewn tlodi tanwydd neu sy'n agored i niwed mewn oerni.

**Nodi Aelwydydd Cymwys**

**<u>Llwybr 1 (Incwm Isel)</u>:**

Aelwydydd bandiau D-G y Weithdrefn Asesu Safonol â pherchnogion preswyl ac aelwydydd E-G y sector rhentu preifat gydag incwm o dan £31,000. Mae'r cap hwn yn berthnasol waeth beth fo maint, cyfansoddiad neu ranbarth yr eiddo.

**<u>Llwybr 2 (Cymhwysedd Procsi Cyfunol):</u>**

Aelwydydd bandiau E-G y Weithdrefn Asesu Safonol â pherchnogion preswyl ac aelwydydd y sector rhentu preifat sy'n bodloni cyfuniad o ddau o'r procsis canlynol (Tabl 1):

| | |
|---|---|
| Procsi 1*) | Cartrefi yn Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (LSOA) degradd 1-3 ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. |
| Procsi 2) | Deiliaid tai sy'n derbyn gostyngiad Treth Gyngor (gostyngiad yn seiliedig ar incwm isel yn unig, ac eithrio gostyngiad person sengl). |
| Procsi 3*) | Deiliaid tai sy'n fregus i effeithiau byw mewn cartref oer fel a nodwyd yng Nghanllawiau'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Dim ond un procsi o'r rhestr y gellir ei ddefnyddio, ac eithrio'r procsi 'incwm isel'. |
| Procsi 4) | Deiliad tŷ sy'n derbyn prydau ysgol am ddim oherwydd incwm isel. |
| Procsi 5) | Deiliad tŷ a gefnogir gan gynllun a gynhelir gan yr Awdurdod Lleol sydd wedi'i enwi a'i ddisgrifio gan yr Awdurdod Lleol fel cynllun sy'n cefnogi aelwydydd incwm isel a bregus at ddibenion Canllawiau NICE.<br><br>Manylion y cynllun:<br><br>*Nodyn: Mae hyn i Gynghorau ei gwblhau fel sy'n briodol. Os nad oes unrhyw gynlluniau a gynhelir gan Awdurdod Lleol sy'n bodloni'r meini prawf yna byddwch cystal â dileu'r procsi hwn o'r Datganiad o Fwriad.* |
| Procsi 6) | Aelwyd a gyfeiriwyd at yr Awdurdod Lleol am gymorth gan ei chyflenwr ynni neu Gyngor ar Bopeth oherwydd iddi gael ei nodi'n aelwyd sy'n cael trafferth talu ei biliau trydan a nwy. |

(*Sylwer nid oes modd defnyddio procsis 1 a 3 gyda'i gilydd)

## Llwybr 3 (Atgyfeiriad GIG):

Aelwydydd bandiau D-G y Weithdrefn Asesu Safonol a nodwyd gan eu meddyg teulu fel rhai incwm isel a bregus, sydd â phreswylydd y mae ei gyflyrau iechyd yn debygol o gael eu heffeithio ymhellach drwy fyw mewn cartref oer. Gall y cyflyrau iechyd hyn fod yn gardiofasgwlaidd, anadlol, imiwnoataliedig neu'n gysylltiedig â symudedd cyfyngedig.

Mae hyn oherwydd bod y Cyngor wedi nodi cydberthyniad cadarnhaol rhwng aelwydydd ar incwm isel sy'n dioddef o gyflyrau iechyd hirdymor, a byw mewn cartrefi sydd wedi'u hinsiwleiddio'n wael.

## Llwybr 4 (Targedu Pwrpasol)

Aelwydydd bandiau D-G y Weithdrefn Asesu Safonol a gyfeirir dan Lwybr 4: Targedu Pwrpasol. Gall cyflenwyr ac Awdurdodau Lleol gyflwyno cais i'r Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol (BEIS) os ydynt wedi nodi aelwyd incwm isel a bregus, nad yw eisoes yn gymwys dan y llwybrau presennol.

## Datganiad a chadarnhad o wiriad tystiolaeth

Dylai'r holl aelwydydd y gallant fod yn gymwys wneud cais drwy Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr neu un o'u gosodwyr ECO cymeradwy i sicrhau bod modd iddynt naill ai elwa o'r cynllun neu gael asesiad cymhwysedd dan unrhyw raglen berthnasol arall. Bydd y swyddog isod yn gyfrifol am wirio a dilysu datganiadau a thystiolaeth gysylltiedig a gyflwynir ar ran yr awdurdod lleol:

Enw: Stuart Baldwin

Teitl Swydd: Rheolwr Ymateb i'r Newid yn yr Hinsawdd

Ffôn: 01656 643141

E-bost: stuart.baldwin@bridgend.gov.uk

## Llofnod gorfodol y Prif Weithredwr neu'r person cyfrifol dynodedig

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn gweinyddu'r cynllun yn unol â Gorchymyn ECO4 BEIS ac yn nodi aelwydydd cymwys drwy broses ymgeisio Ofgem. Bydd Prif Weithredwr y Cyngor yn goruchwylio'r broses o nodi aelwydydd cymwys dan ECO4 Flex. Caiff y wybodaeth ynghylch cymhwysedd ei storio'n ddiogel yn unol â pholisi diogelu data y Cyngor, Cod Rhannu Data Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, a chanllawiau BEIS.

Llofnod:

Enw: Janine Nightingale

Teitl Swydd: Cyfarwyddwr Corfforaethol (Cymunedau)

Dyddiad y llofnod: 05/04/2024

Am unrhyw ymholiadau cyffredinol yn ymwneud â'r Datganiad o Fwriad hwn, cysylltwch â stuart.baldwin@bridgend.gov.uk